# YSGOL PEN BARRAS

# Cynllun Hygyrchedd

Mabwysiadwyd gan y llywodraethwyr a Dyfan Phillips    I'w hadolygu- Haf 2026

Mae adeilad yr ysgol yn hygyrch i bobl anabl. Mae na lefydd parcio pwrpasol gyda llethrau mynediad, toiledau anabl a chawod pe bae angen. Mae TGCH yn hawdd i'w ddefnyddio o ran maint testun ac mae na apiau perthnasol . Byddem yn cysylltu a'r awdurdod addysg lleol i fenthyg unrhyw gyfarpar fyddai angen arnom i rhoi mynediad teg i bawb i addysg yn Ysgol Pen Barras ac fel ymwelwyr neu staff gyda anabledd.

| | Targedau | Strategaethau | Canlyniad | Amserlen | Nodau a gyflawnwyd | Cost |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1. Gwneud deunyddiau ysgrifenedig ar gael mewn fformatau angen ar gyfer rhieni/gofalwyr anabl. Darpariaeth o Gyfieithwyr neu Gefnogaeth Cyfathrebu os oes angen. | Bydd yr ysgol yn defnyddio arbenigedd Athrawon Ymgynghori AALl ar gyfer namau synhwyrol, RNIB, Gwasanaeth Cefnogi Dysgu ADY ac ALNCO ar gyfer creu a throsi testunau i fformatau amgen. Bydd yr ysgol yn cyhoeddi datganiad yn ei brosbectws, sy'n amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael. | Os bydd ei angen, neu os gwneir cais amdano, gall yr ysgol ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig mewn fformatau amgen ar gyfer rhieni/gofalwyr anabl. | Unionsyth pan mae angen | Gwybodaeth ysgrifenedig wedi ei ddarparu mewn fformatau amgen ar gyfer rhieni/gofalwyr anabl. | DIM |
| | 2. Cynllun i archwilio polisïau'r ysgol i sicrhau nad oes dim polisïau, cymalau, gweithdrefnau nac arferion sy'n gwahaniaethu. Bydd yr holl bolisïau perthnasol yn hyrwyddo mynediad i'r anabl mewn modd cadarnhaol. | Bydd yr ysgol yn defnyddio cyngor ac arbenigedd Gwasanaethau Ymgynghori'r AALl er mwyn cynorthwyo i wneud pob polisi yn ddiogel rhag gwahaniaethu i'r anabl. | Bydd y polisïau yn cael eu harchwilio ac unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd yn cael eu tynnu allan o ran cymalau, gweithdrefnau ac arferion. | Medi 2023 | Mae gwybodaeth ysgrifenedig yr ysgol yn rhydd o unrhyw wahaniaethu ar sail anabledd yn nhermau polisïau, cymalau, gweithdrefnau ac arferion. Bydd mynediad i'r anabl yn cael ei annog yn gadarnhaol. | DIM |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 3.Mewn rhaglenni adnewyddu, cynllunio i wella hygyrchedd i'r ysgol trwy ychwanegu ddefnyddio 6 man parcio gyda marciau ac arwydd wedi ei osod ar y tarmac yn glir. | Yn dilyn archwiliad o adeiladau'r ysgol gan yr AALl, defnydd arfaethedig o adnoddau'r AALl | Man parcio wedi eu marcio'n glir - mwy hygyrch i ymwelwyr gydag anawsterau. | unionsyth | Annog pobl i beidio parcio'n anghyfreithlon yn y manau parcio | DIM |

| | **Targedau** | **Strategaethau** | **Canlyniad** | **Amserlen** | **Nodau a gyflawnwyd** | **Cost** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sicrhau fod ymwelwyr yn gwybod lle mae'r toiledau anabl. | Dangos y toiledau | Pawb yn gwybod ble mae nhw edi'w lleoli | Ar fynediad | | Dim |